

## GOULD, ARTHUR JOSEPH (1864-1919), chwaraewr pêl droed (Rygbi)

**Enw:** Arthur Joseph Gould  
**Dyddiad geni:** 1864  
**Dyddiad marw:** 1919  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** chwaraewr pêl droed (Rygbi)  
**Maes gweithgaredd:** Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden  
**Awdur:** Moelwyn Idwal Williams

Ganwyd yng Nghasnewydd 10 Hydref 1864, yn un o deulu nodedig mewn mabolgampau a chyda'r bêl droed - bu yntau'n chwarae dros Gasnewydd mor gynnar â'r 16 oed; ac o hynn yd 1898 daliodd ati. Cefnwr oedd ar y cychwyn - bu'n gefnwr dros Gasnewydd am dri thymor, ac fel cefnwr y cafodd ei 'gap' cyntaf dros Gymru. Ond fel canolwr y daeth yn wir enwog. Bu'n cynrychioli Cymru gynifer â 27 o weithiau, rhwng 1885 a 1897. Yr oedd yn hynod chwim ei droed, ac yn sgoriwr uchel - am gryn amser, ganddo ef yr oedd y 'record' o 44 o 'geisiau' mewn un tymor, yn erbyn y clybiau pwysicaf yn y Deheudir. Gyda chlwb Casnewydd y bwirodd y rhan fwyaf o'i yrfa, ond bu hefyd yn chwarae dros Richmond (1886-7) a Middlesex (1887-8). Fel rhedegwr, hefyd, yr oedd iddo fri mawr. Bu farw 2 Ionawr 1919; y mae gwely coffa iddo yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd.

Brawd (hynaf) iddo oedd ROBERT GOULD (1864? - 1932), blaenwr, a fu'n chwarae dros Gasnewydd o 1879 hyd 1889, ac a gynrychiolodd Gymru 11 o weithiau rwng 1882 a 1887; bu farw 29 Rhagfyr 1932.

### Awdur

Dr Moelwyn Idwal Williams

### Ffynonellau

W. J. T. Collins, *Rugby Recollections* (1948), 9-10

*The Times*, 3 Ionawr 1919

*Western Mail*, 3 Ionawr 1919

### Darllen Pellach

Carolyn Hitt, Arthur Gould, the first true celebrity face of Welsh rugby, *Western Mail*, 5 Ionawr 2019

Erthygl Wicipedia: [Arthur Gould](#)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [305410748](#)

Wikidata: [Q1403116](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Williams, M. I., (1953). GOULD, ARTHUR JOSEPH (1864-1919), chwaraewr pêl droed (Rygbi). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c1-GOUL-JOS-1864>

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government